

Polisi a Threfnau Rhyddid Gwybodaeth

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ('y DRhG') yn darparu'r hawl i unigolion a sefydliadau ofyn am wybodaeth a gedwir gan awdurdodau cyhoeddus. Mae'r Ddeddf RhG yn rhoi dwy hawl cymwys sy'n ymwneud â'i gilydd – yr hawl i gael gwybod a gedwir yr wybodaeth ai peidio, a'r hawl i dderbyn y wybodaeth, yn ddibynnol ar eithriadau. Mae'r hawl i gael mynediad yn gymwys, waeth bynnag beth yw pwrpas y cais. Nid oes modd gwybod pwy yw'r ymgeisydd ac fe drinnir pawb yn gyson. Rhaid gwneud ceisiadau mewn ysgrifen a rhaid darparu'r wybodaeth iddynt o fewn 20 diwrnod gwaith, oni bai bod eithriad yn gymwys.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn gwbl ymroddedig i amcanion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r ddeddfwriaeth berthnasol, a bydd yn gwneud pob ymdrech i ateb ei rwymedigaethau.

Pwrpas / amcanion

Mae'r polisi hwn yn amlinellu dull Cyngor Sir Ddinbych i ymateb i geisiadau am wybodaeth a wneir o dan y DRhG. Mae polisi ar wahân yn bodoli ar gyfer ceisiadau Deddf Diogelu Data (DDD) a cheisiadau ar gyfer gwybodaeth amgylcheddol o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (RhGA). Lle ceir cais o dan y DRhG a'i fod mewn gwirionedd yn dod o dan drefn yr RhGA neu'r DDD, yna bydd y Cyngor yn sianelu'r cais yn awtomatig drwy'r polisi addas, fel y gofynnir iddo ei wneud, gan fod eithriadau gwahanol neu eithriadau mewn amgylchiadau o'r fath a hawliau cyfreithiol gwahanol yn gymwys.

Amcanion y Polisi

- Ddarparu fframwaith sy'n cefnogi ac yn cadw at egwyddorion Rhyddid Gwybodaeth yn llawn.
- Sicrhau dull cyson wrth gymhwyso egwyddorion RhG, gwneud penderfyniadau RhG a gorfodi eithriadau RhG.
- Sicrhau bod y cyngor yn cwrdd â'r safonau a nodir yng Nghod Ymarfer yr Arglwydd Ganghellor o dan Adran 45 y DRhG, sy'n darparu arweiniad ar yr arfer i'w dilyn wrth ymdrin â cheisiadau am wybodaeth.
- Gweithredu fel canllaw defnyddiwr.
- Mae'r Cyngor yn cydnabod, er nad ydyw wedi ei rwymo mewn cyfraith, bydd methu â chydymffurfio â'r Cod Ymarfer yn gallu arwain at fethiant i gydymffurfio â'r DRhG.

- Sicrhau cysondeb wrth gyhoeddi gwybodaeth drwy gynllun cyhoeddi'r Cyngor ac ymatebion y Cyngor i ymholiadau RhG.
- Gweithio tuag at weledigaeth tymor hirach o fanteisio ar dechnoleg a chyhoeddi pob gwybodaeth, oni bai bod rheswm cyfreithiol drosbeidio â gwneud hynny.

Nodau

Nod y polisi hwn yw sicrhau mynediad at wybodaeth a gedwir gan y Cyngor er mwyn hyrwyddo agwedd mwy agored, darparu mwy o eglurder wrth wneud penderfyniadau ac i fagu ffydd a hyder y cyhoedd. Gall mynediad at wybodaeth ynglŷn â phenderfyniadau a gymerwn helpu pobl leol i ddylanwadu ar ddarpariaeth gwasanaeth lleol. Cydbwysir yr amcanion hyn yn erbyn yr angen i sicrhau cyfrinachedd ynghylch gwybodaeth benodol, lle na fyddai datgelu'r wybodaeth o les i'r cyhoedd. Mae sawl eithriad yn destun 'prawf lles y cyhoedd' a all fod yn brawf cyfreithiol cymhleth i'w ddefnyddio, ac sy'n gofyn ystyried sawl ffactor o blaid datgelu, yn erbyn y ffactorau hynny o blaid atal y wybodaeth. Nid ydyw'n les 'chwilfrydedd y cyhoedd' yn unig, fel arfer mae'n llawer mwy na hyn.

Ymrwymiad allweddol i gael mynediad at wybodaeth

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ymroddedig i agwedd agored ynglŷn â'r ffordd mae'n gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau, a bydd yn ffafrio datgelu gwybodaeth, lle bo'n bosibl. Lle bo angen defnyddio'r prawf lles y cyhoedd, os yw lles y cyhoedd yn drech nag atal y wybodaeth, yna dylid rhyddhau'r wybodaeth, ac i'r gwrthwyneb, mae'n weithred gydbwyso. Mae'r polisi hwn yn nodi'r egwyddorion cyffredinol a fydd yn cael eu mabwysiadu gan y Cyngor mewn ymateb i geisiadau am wybodaeth o dan y Ddeddf RhG.

Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl wybodaeth a gofnodwyd a gedwir gan Gyngor Sir Ddinbych. Gellir cofnodi gwybodaeth ar e-bost, copi papur, fideo, neu ffotograffau, adroddiadau sesiynau caeedig (h.y. papurau rhan 2), ffeiliau neu unrhyw ffurf o wybodaeth a 'gofnodwyd', wedi'i chadw ar yr adeg y derbynnir y cais. Mae'n drosedd dinistrio gwybodaeth a gofnodwyd, pan mai pwrpas y dinistrio hwn oedd osgoi datgelu gwybodaeth yn dilyn cais. Nid gwybodaeth y Swyddogion neu'r Aelodau ydyw, ond gwybodaeth y Cyngor. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl weithwyr a'r cynghorwyr, lle mae'r wybodaeth a gedwir yn perthyn i'r Cyngor.

Mae'r polisi'n berthnasol i'r holl geisiadau am wybodaeth ac eithrio ceisiadau gan unigolion ar gyfer eu data personol eu hunain a cheisiadau 'busnes fel arfer' safonol. Cais 'busnes fel arfer' yw cais am wybodaeth neu wasanaethau y byddai maes gwasanaeth yn disgwyl ei dderbyn yn ei waith arferol o ddydd i ddydd. Ni ellir trin unrhyw gais sy'n dangos ei fod yn ymholiad DRhG fel 'busnes fel arfer'. Er enghraifft, bydd cais gan aelod o'r cyhoedd i weld cofrestr gyhoeddus ar yr olwg gyntaf yn cael ei drin fel 'busnes fel arfer', neu bydd cais am wybodaeth dwristiaeth mewn canolfan groeso yn 'busnes fel arfer', nid cais DRhG.

Bydd y wybodaeth ar gael gennym yn rhagweithiol drwy ein gwefan a'n cynllun cyhoeddi. Mae'r cynllun cyhoeddi yn cynnwys canllaw wybodaeth, sy'n dangos y mathau o wybodaeth rydym yn ei sicrhau sydd ar gael.

Byddwn yn darparu mynediad at wybodaeth amgylcheddol drwy Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 ('RhGA'). Ymdrinnir â cheisiadau o dan yr RhGA yn unol â Pholisi Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol Cyngor Sir Ddinbych. Mae'r gyfraith yn yr ardal hon yn dod gan Gyfarwyddeb UE, sy'n nodi bod yn rhaid i Gyngorau ddsbarthu wybodaeth amgylcheddol yn fwy aml dros amser. Yr unig ddull o gyflawni'r amcan hwn yn realistig yw manteisio ar dechnoleg i sicrhau fod gwybodaeth gyhoeddus ar gael yn hawdd, a ddylai leihau nifer y ceisiadau y mae'r awdurdodau cyhoeddus yn delio â nhw dros amser.

Dilysrwydd

I fod yn ddilys o dan y Ddeddf RhG, dylai ceisiadau:

- Fod mewn ysgrifen;
 - Disgrifio'n glir yr wybodaeth y ceisir
 - amdani; Gellir eu gwneud gan unigolyn
 - neu sefydliad; Gellir eu gwneud drwy
 - lythyr, ffacs neu e-bost; Rhaid iddynt fod
 - yn ddarllenadwy
- Rhaid iddynt gynnwys enw'r ymgeisydd a chyfeiriad dychwelyd.

I fod yn ddilys o dan y Ddeddf RhG nid oes yn rhaid i geisiadau:

- Fod wedi'u hysgrifennu mewn ffurf
- arbennig; Sôn am y Ddeddf RhG; neu
- Angen cyfeirio at "Ryddid Gwybodaeth".

Cyngor a Chymorth

Mae gan y Cyngor ddyletswydd i ddarparu cyngor a chymorth i ymgeiswyr o dan Adran 16 y DRhG cyn belled ag y byddai'n rhesymol disgwyl i'r Awdurdod wneud hynny. Mae'r Cyngor yn ymroddedig i gydymffurfio â'i ddyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus ac yn y cyswllt hwn, mae unrhyw un sydd angen help neu gymorth, er enghraifft, drwy anabledd neu rwystrau iaith, yn cael cymorth gan y tîm RhG i wneud cais o dan y DRhG. Bydd y Cyngor yn cynnig cyngor a chymorth i unrhyw unigolyn neu sefydliad sy'n dymuno gwneud cais am wybodaeth. Mae'r Cyngor yn ymroddedig i ymdrin â cheisiadau o fewn canllawiau statudol, dim mwy na 20 diwrnod gwaith, ac yn gynt na hynny, os ydyw'n bosibl.

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r polisi hwn neu fynediad at wybodaeth o fewn y Cyngor at yr:

Mynediad at Wybodaeth
Tîm Rheoli Gwybodaeth Corfforaethol
Swyddfeydd Cyngor, Neuadd y Sir

Ffordd Wynnstay
Rhuthun
Sir Ddinbych

LL15 1YN

E-bost: Gwybodaeth@sirddinbych.gov.uk

Rhif ffôn: 01824 708242

Swyddogaethau a chyfrifoldebau

Penaethiaid Gwasanaeth

- Yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfriad gweithredol â'r polisi hwn yn eu gwasanaeth eu hunain, a'u Cynllun Dirprwyo eu hunain.
- Penodi Swyddogion Rheoli Gwybodaeth i fod yn gyfrifol am geisiadau RhG.
- Sicrhau bod swyddogion gyda chyfrifoldebau am geisiadau RhG yn cael cefnogaeth yn eu gwaith o ran ymrwymiad ac adnoddau.
- Sicrhau bod yr holl staff yn cydymffurfio â'r polisi a threfnau y cytunir arnynt ar gyfer RhG.
- Cydnabod materion RhG wrth gynllunio gwasanaeth a dyrannu adnoddau.

Uned Gwybodaeth Corfforaethol

- Darparu cyngor ac arweiniad ar bolisi a threfnau'r RhG/RhGA.
- Darparu hyfforddiant ar gyfer materion RhG/RhGA.
- Cofnodi holl fanylion y cais am wybodaeth.
- Sicrhau bod y system electronig cais am wybodaeth yn cael ei diweddarau
- Cydlynu ceisiadau am wybodaeth ar y cyd â chydlynwyr (Swyddogion Rheoli Gwybodaeth)
- Ystyried a yw'r cais am wybodaeth yn flinderus, yn gais niferus (h.y. mae'r ymgeisydd wedi gofyn am yr un wybodaeth neu wybodaeth debyg o fewn y 120 diwrnod diwethaf), neu'n debygol o fod yn ddrud.
- Ystyried ymatebion drafft wedi'u paratoi a sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei darparu (yn destun unrhyw eithriadau o dan y Ddeddf RhG).
- Dilyn y drefn am ymdrin â cheisiadau RhG sensitif gan gynnwys unrhyw atgyfeiriad at y Panel Mynediad at Wybodaeth.
- Mewn achos o adolygiad mewnol, casglu Gwybodaeth am sut y deliwyd â'r cais gwreiddiol a sefydlu panel adolygu (y Panel Mynediad at Wybodaeth) i ystyried y gŵyn.
- Datblygu a chynnal polisi a threfnau corfforaethol yr RhG.
- Cyhoeddi Tudalen Cwestiynau Cyffredin RhG ar wefan y Cyngor.
- Monitro ac adolygu effeithlonrwydd y polisi a threfnau.

- Nodi a chyfathrebu unrhyw faterion RhG i'r Panel Mynediad at Wybodaeth.
- Cynnal Cynllun Cyhoeddi'r Cyngor.
- Rhoi gwybod am gydymffurfiad yn flynyddol i Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor ar y cyd â'r Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth a'r Swyddog Diogelu Data.

Swyddogion Rheoli Gwybodaeth.

- Bod eu Gwasanaeth yn delio'n effeithiol â cheisiadau am wybodaeth, drwy gydlynw ceisiadau.
- Sicrhau mai ef/hi yw'r swyddog cywir i symud ymlaen gyda'r cais; os nad hyn yw'r achos, cyfeiriwch y cais at yr Uned Gwybodaeth Corfforaethol cyn gynted â phosibl.
- Darparu copïau o'r cais gwreiddiol (os cafodd ei dderbyn drwy'r Gwasanaeth) a'r ymateb i'r Uned Gwybodaeth Corfforaethol.
- Hyrwyddo'r polisi a threfnau yn eu gwasanaeth, rhoi gwybod am unrhyw anawsterau i'r Panel Mynediad at Wybodaeth.
- Sicrhau bod system electronig cais am wybodaeth yn cael ei diweddarau.
- Ystyried a yw'r cais am wybodaeth yn flinderus, yn gais niferus (h.y. mae'r ymgeisydd wedi gofyn am yr un wybodaeth neu wybodaeth debyg o fewn y 120 diwrnod diwethaf), neu'n debygol o fod yn ddrud (dros 18 awr o gasglu ac adalw). Os yw'r cydlynnydd RhG yn ystyried bod y cais yn unrhyw un o'r rhain, mae'n rhaid iddynt roi gwybod i'r Uned Gwybodaeth Corfforaethol yn syth. Efallai y bydd cais sydd angen 18 awr neu fwy o gasglu ac adalw yn gorfod cael ei wrthod, a bydd yr Uned Gwybodaeth Corfforaethol yn ystyried ac yn symud ymlaen gyda'r mater hwn os ydyw'n briodol drwy'r Panel Mynediad at Wybodaeth.

Bydd Swyddogion Rheoli Gwybodaeth yn cael hyfforddiant ychwanegol a byddant yn gyfrifol am ddarparu arweiniad i staff drwy gydol eu Gwasanaeth ar fynediad at wybodaeth yn unol â'r polisi hwn.

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

- Darparu cyngor cyfreithiol (pan ofynnir amdano) ar gyfreithlondeb yr ymatebion bwriedig.
- Bod yn gyfrifol am wneud penderfyniadau mewn perthynas â gwrthod ceisiadau am wybodaeth yn unol â'r Panel Mynediad at Wybodaeth a'i Gylch Gorchwyl. (Mae Cylch Gorchwyl y Panel wedi'i atodi fel Atodiad A)
- Darparu cyngor cyfreithiol ar eiriad hysbysebion gwrthod.
- Mewn achos o adolygiad mewnol, fel aelod o'r Panel Mynediad at Wybodaeth, ymchwilio i rinweddau'r gŵyn a chynorthwyo i ddarparu ymateb priodol i'r achwynydd.
- Awdurdodi'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i weithredu fel "person cymwys" o dan Adran 36 Deddf RhG ond bydd yn ymgynghori gyda'r Panel Mynediad at Wybodaeth ynglŷn â'r penderfyniad.

Pob gweithiwr yn y Cyngor

- Bod yn ymwybodol o'r Ddeddf RhG a'i hystyr;
- Nodi unrhyw gais sy'n dod o dan Ddeddf RhG;
- Dilyn y polisi hwn a'i drefnau ar gyfer delio â cheisiadau RhG,
- Delio â phob cais yn brydlon ac o fewn 20 gwaith o'i dderbyn.
- Sicrhau bod yr holl geisiadau yn cael eu cofnodi gyda'u Swyddog Rheoli Gwybodaeth neu'r Uned Gwybodaeth Corfforaethol.
- Darparu cyngor a chymorth i unigolion sy'n gwneud cais am wybodaeth.
- Dylai staff sy'n delio gan amlaf â gwybodaeth amgylcheddol (fel y rhai hynny a gyflogir mewn unedau gwastraff neu gynllunio) fod yn ymwybodol bod modd gwneud cais am wybodaeth amgylcheddol ar lafar, nid mewn ysgrifen fel gyda'r DRhG.
- **Bod yn ymwybodol, unwaith y gwneir cais am wybodaeth, bod yr wybodaeth yn cyflawni statws arbennig. Bydd yna'n dod yn drosedd newid, hagrau, rhwystro, dileu, dinistrio neu gelu gwybodaeth gyda'r bwriad o atal bod y wybodaeth yn cael ei datgelu. Bydd y Cyngor neu'r unigolyn yn atebol i ddirwy na fydd yn fwy na £5,000**

Deddf RhG a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (RhGA)

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod sawl tebygrwydd rhwng y ddwy drefn a bod ceisiadau am "wybodaeth amgylcheddol" yn gorfod cael eu hateb yn unol â'r RhGA yn hytrach na Deddf RhG.

Mae'n bosibl mewn rhai achosion y bydd y ddwy drefn yn berthnasol. Bydd y Cyngor yn ceisio nodi'n glir pa rannau o'r wybodaeth sy'n mynd o dan ba drefn wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth o'r fath.

Cynllun cyhoeddi

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cynllun Cyhoeddi ac yn ymroddedig i'w ddiweddarau a'i gynnal i'w gadw'n gyfredol ac yn berthnasol. Mae'r Cynllun Cyhoeddi'n cynnwys dogfennau, polisïau, cynlluniau ac arweiniad a ddefnyddir gan y Cyngor. Mae'r deunydd a gynhwysir yn y Cynllun ar gael ar y Fewnrwyd. Pan fydd taliadau'n berthnasol, bydd y rhain yn cael eu nodi yn y Cynllun.

Codi Tâl

Mae gan y Cyngor yr hawl i wrthod ateb cais ar sail cost pe byddai'n fwy na £450 i wneud hynny. Mae hyn yn cyfateb i tua dau ddiwrnod a hanner o waith (neu 18 awr ar gyfradd o £25 yr awr o amser chwilio pob swyddog fel y rhagnodir yn y Rheoliadau).

Wrth gyfrifo a fyddai ateb cais yn mynd dros y terfyn amser hwn, bydd y Cyngor yn ystyried y costau sydd ynghlwm wrth y gweithgareddau canlynol:-

- Penderfynu a yw'n dal y wybodaeth,

- Canfod ac adalw'r wybodaeth, neu ddogfen a allai gynnwys y wybodaeth;
- Echdynnu'r wybodaeth o ddogfenn(au) sy'n ei chynnwys (gan gynnwys golygu).

Wrth osod ffioedd a thaliadau, nid oes yn rhaid i'r Cyngor ystyried y costau wrth ystyried a yw gwybodaeth yn eithriedig o dan y Ddeddf neu dreuliau sy'n codi wrth gyflwyno Rhybuddion Ffi.

Os amcangyfrifir bod cais yn mynd i gostio llai na'r terfyn a ragnodir o £450, ac nad oes unrhyw sail arall y gellir ei wrthod neu ddelio ag ef, bydd y Cyngor yn ateb y cais. Cyfeirir at y ffi uchaf y gellir ei chodi mewn achosion fel hyn sy'n gyfyngedig i gostau penodol y postio, argraffu a'r llungopïo fel 'costau treuliau', h.y. costau o roi gwybod i'r ymgeisydd a yw'r Cyngor yn dal yr wybodaeth ai peidio, cynhyrchu unrhyw ddogfen sy'n cynnwys yr wybodaeth; a chyfathrebu'r wybodaeth i'r ymgeisydd.

Bydd y Cyngor, ar ei ddisgresiwn ei hun, yn penderfynu hepgor unrhyw gostau o dan £10 mewn perthynas â chais unigol a wneir o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000; fodd bynnag, codir tâl am gostau treuliau llawn sy'n uwch na'r swm hwn. Gellir adolygu'r penderfyniad hwn yn achlysurol.

Os yw'r Cyngor yn dewis ateb cais a fydd yn costio mwy na'r terfyn o £450, cysylltir â'r ymgeisydd a rhoddir gwybod iddynt ba wybodaeth fydd ar gael o dan y terfyn hwnnw, h.y. trafodir gyda'r ymgeisydd a fyddai'n well ganddo/ganddi addasu'r cais i leihau'r gost o ran amser y swyddog.

Os yw ymgeisydd yn dal yn dymuno parhau gyda'r cais gwreiddiol, mae'r ffi uchaf y gellir ei chodi yn cyfateb i gyfanswm costau a amcangyfrifwyd o :-

- Benderfynu a yw'r Cyngor yn dal yr wybodaeth, dod o hyd ac adalw'r wybodaeth, a chael hyd i'r wybodaeth o'r ddogfen sy'n ei chynnwys (cost amser swyddog a ragnodir); a
- Rhoi gwybod i'r ymgeisydd a yw'r Cyngor yn dal y data a chyfathrebu'r wybodaeth i'r person sy'n gwneud y cais (costau treuliau).

Os nad ydi'r ymgeisydd yn cytuno gyda'r ffi bwriedig, gallant apelio drwy drefn gwynion y Cyngor yn y lle cyntaf.

Ceisiadau Dilynol neu Ymgyrch:-

1. Dyma lle gwneir dau gais neu fwy am wybodaeth i'r Cyngor gan un person neu wahanol bersonau sy'n ymddangos eu bod yn gweithredu ar y cyd neu'n dilyn ymgyrch.
2. Y rheol yw bod y gost a amcangyfrifir o gydymffurfio â'r ceisiadau hyn yn cael eu hystyried yn gyfanswm cost cydymffurfio â phob unohonynt, h.y. lle mae'r gost gronnu yn £450 neu drosodd, gallai'r Cyngor

wrthod ateb y cais penodol neu godi tâl am amser y swyddogion sy'n cyfranogi i wasanaethu'r holl geisiadau. Fodd bynnag, er mwyn i'r rheol hon fod yn berthnasol, byddai'r ceisiadau yn gorfod ymwneud â'r un wybodaeth neu wybodaeth debyg, a dod i law o fewn unrhyw gyfnod o 60 diwrnod gwaith dilynol.

Trosglwyddo ceisiadau am wybodaeth i awdurdod cyhoeddus arall

Os yw'r Cyngor yn cael cais am wybodaeth nad ydyw'n ei dal, ond yn gwybod bod gan awdurdod cyhoeddus arall y wybodaeth, bydd yn darparu cymaint o gymorth a phosibl i'r ymgeisydd i drosglwyddo eu cais i'r awdurdod sy'n dal y wybodaeth. Gallai hyn fod mor syml â'u cyfeirio at yr awdurdod cyhoeddus perthnasol.

Os yw'r Cyngor yn dal unrhyw ddarn o wybodaeth y gwneir cais amdani, bydd yn trin y rhan hwnnw o'r cais fel cais Deddf RhG ac yn ei brosesu yn unol â hynny. Ar y cyfle cynharaf, bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd am y wybodaeth nad ydyw'n ei dal ac yn darparu cymorth rhesymol i'w galluogi i gael hyd iddi yn rhywle arall.

Os yw'r ymgeisydd yn dangos i'r Cyngor nad ydynt yn gwrthwynebu'r trosglwyddiad i awdurdod cyhoeddus arall, gall y Cyngor drosglwyddo'r cais i'r awdurdod arall yn uniongyrchol. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd os bydd angen gwneud hyn.

Trosglwyddir ceisiadau a chysylltu â'r rhai hynny sydd wedi gofyn am wybodaeth a gedwir gan awdurdod cyhoeddus arall cyn gynted â phosibl fel nad oes unrhyw oedi. Nid yw'r cyfnod amser ar gyfer cydymffurfio â'r cais mewn perthynas â rhan o'r wybodaeth na chedwir gan Gyngor Sir Ddinbych yn dechrau hyd nes y bydd yr awdurdod cyhoeddus sy'n dal y wybodaeth yn derbyn y cais hwnnw.

Ymgynghoriad gyda thrydydd parti

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai datgelu gwybodaeth effeithio ar hawliau cyfreithiol trydydd parti ac ysgrifennir y polisi hwn yn unol â thelerau Deddf Diogelu Data 1998 a Deddf Hawliau Dynol 1998. Mae'r Cyngor yn cydnabod ymhellach oni bai y gwneir eithriad yn Neddf RhG, bydd gofyniad i ddatgelu'r wybodaeth honno mewn ymateb i'r cais.

Os bydd angen caniatâd y trydydd parti cyn datgelu'r wybodaeth, bydd y Cyngor, ar y cyfle cynharaf, yn ymgynghori gyda'r trydydd parti hwnnw gyda'r bwriad i gael eu caniatâd i ddatgelu'r wybodaeth, oni bai nad ydyw ymgynghoriad o'r fath yn ymarferol. Gall yr ymgynghoriad gynorthwyo'r Cyngor i benderfynu a yw eithriad o dan Ddeddf RhG yn berthnasol i'r wybodaeth y gwneir cais amdani, neu fe allai safbwyntiau'r trydydd parti

gynorthwyo'r Cyngor wrth benderfynu a yw diddordeb cyhoeddus yn dod o dan adran 2 Deddf RhG. Nid yw trydydd parti'n sy'n gwrthod rhoi caniatâd i ddatgelu gwybodaeth o reidrwydd yn golygu na ddatgelir gwybodaeth. Os nad ydyw cost yr ymgynghoriad gyda'r trydydd parti yn gymesur, ni fydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal. Ni fydd y Cyngor yn cynnal ymgynghoriad os nad ydyw'n bwriadu datgelu'r wybodaeth oherwydd eithriad arall, neu lle bydd safbwyntiau'r trydydd parti yn cael dim effaith ar benderfyniad y Cyngor oherwydd nad oes unrhyw eithriad yn berthnasol.

Gwybodaeth a ddarperir yn gyfrinachol

Mae gwybodaeth a ddarperir yn gyfrinachol gan drydydd parti yn wybodaeth a eithrir o dan Adran 41 y Ddeddf RhG, os byddai datgelu'r wybodaeth honno i'r cyhoedd yn doriad cyfreithadwy o gyfrinachedd gan y person sy'n darparu'r wybodaeth neu unrhyw berson arall. Bydd y Cyngor ond yn derbyn gwybodaeth gan drydydd parti ar sail gyfrinachol pe na fyddai'r wybodaeth honno fel arall yn cael ei darparu i'r Cyngor i gynorthwyo'r ddarpariaeth o swyddogaethau'r Cyngor. Ni fydd y Cyngor yn cytuno i gadw gwybodaeth yn gyfrinachol os nad ydy'n gyfrinachol o ran natur. Os bydd person neu sefydliad yn ceisio darparu gwybodaeth yn gyfrinachol, byddant yn cael gwybod os nad ellir ei drin yn gyfrinachol.

Cytundebau

Ni fydd y Cyngor yn cynnwys telerau cytundebol, fel cymalau cyfrinachedd, sy'n honni y cyfyngir ar ddatgelu gwybodaeth a gedwir gan y Cyngor, mewn perthynas â'r cytundeb, y tu hwnt i eithriadau yn y Ddeddf RhG. Oni bai y bydd eithriad o dan y Ddeddf yn berthnasol i unrhyw ran benodol o'r cytundeb, gorfodir i'r Cyngor ddatgelu'r wybodaeth honno mewn ymateb i gais, waeth bynnag beth yw telerau unrhyw gytundeb. Gallai cyfrinachau masnach gael eu dosbarthu fel gwybodaeth wedi'i heithrio, fel y gall gwybodaeth, a fyddai'n rhagfarnu ar gysylltiadau masnachol unrhyw berson, gan gynnwys y Cyngor. Mae'r eithriad hwn yn destun prawf lles y cyhoedd h.y. a fyddai lles y cyhoedd i gynnal yr eithriad yn drech na lles y cyhoedd i'w datgelu.

Bydd y Cyngor yn ceisio trafod a chytuno gyda'r contractwr ar amserlen gwybodaeth yn ystod y broses dendro, na fydd y contractwr yn dymuno ei datgelu. Fodd bynnag, hyd yn oed os cynhwysir amserlen o'r fath, efallai y bydd cyfyngiadau ar ddatgelu yn cael eu goresgyn wedi hynny, drwy rwymedigaethau o dan y Ddeddf RhG. Yn ogystal â hynny, gall lles y cyhoedd mewn rhyddhau gwybodaeth fod o blaid datgelu, ar ôl i amser fynd heibio.

Os yw sefydliad nad ydyw'n gyhoeddus yn gwneud cytundeb gyda'r Cyngor i ddarparu gwasanaeth sy'n swyddogaeth o'r Cyngor, yna fe ystyrir y sefydliad hwnnw fel rhan o'r Cyngor ar gyfer dibenion y Ddeddf RhG, ac mewn perthynas â'r gwasanaeth hwnnw, bydd yn destun telerau'r Ddeddf RhG. Bydd y Cyngor yn ystyried Polisi a Chanllaw OGC/GPS ynghylch datgelu gwybodaeth caffael ac ar ôl dyfarnu tendr.

Gwrthod Cais

Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd gwybodaeth bob tro na fydd yn cael ei datgelu neu na fydd o les y cyhoedd i'w datgelu. Yn yr achosion hyn, bydd y Cyngor yn sicrhau y bydd ymgeiswyr yn cael rhesymau eglur a chywir dros wrthod eu ceisiadau a'u cynorthwyo i ddod o hyd i wybodaeth berthnasol arall. Mae gan yr ymgeiswyr hawl i adolygu'r penderfyniad. Bydd yr ymgeiswyr yn cael gwybod am yr hawl hwn, ac fe allant ofyn am adolygiad o'r fath, os nad ydynt yn fodlon gydag ymateb y Cyngor.

Os yw'r Cyngor yn dibynnu ar eithriad i wrthod cais am wybodaeth, bydd yr ymgeisydd yn cael gwybod am yr eithriad perthnasol a pham ei fod yn berthnasol. Mae Atodiad B yn nodi'r prif eithriadau sy'n debygol o fod yn berthnasol i wybodaeth a gedwir gan y Cyngor. Os byddai'r rhesymeg y tu ôl i'r eithriad, neu'r eithriad ei hun, yn golygu y byddai gwybodaeth a fyddai yn ei hun yn eithriedig yn cael ei datgelu, yna ni all y Cyngor ddarparu'r rheswm hwnnw.

Os yw'r Cyngor yn penderfynu fod lles y cyhoedd mewn cynnal yr eithriad yn drech na lles y cyhoedd mewn datgelu, yna bydd hyn yn cael ei nodi yn y llythyr gwrthod, ynghyd â ffactorau lles y cyhoedd, sydd wedi'u hystyried, ac sy'n ffurfio rhan faterol o'r penderfyniad.

Os yw dogfen yn cynnwys gwybodaeth eithriedig, ni fydd y Cyngor yn gwrthod mynediad at y ddogfen gyfan, oni bai ei bod yn gwbl angenrheidiol gwneud hynny er mwyn sicrhau na fydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu. Lle bydd rhan o'r ddogfen wedi'i heithrio, fel arfer dim ond y rhan honno o'r ddogfen sy'n cynnwys yr wybodaeth eithriedig a gaiff ei hatal.

Mae'r Cyngor yn cynnal cofnod canolog ar gyfer dibenion monitro pob cais Deddf RhG a bydd yn archwilio pob penderfyniad yn rhagweithiol, i sicrhau lle bydd ceisiadau am wybodaeth yn cael eu gwrthod, bod y rhesymau dros wrthod yn cael eu cyfiawnhau ac yn rhesymol.

Ceisiadau blinderus/niferus

Ceisiadau niferus

Dyma lle ceir cais niferus sy'n debyg neu'n sylweddol debyg i gais blaenorol gan yr un person, bydd y Cyngor yn ystyried hwn fel cais niferus. Nid yw'r Cyngor yn gorfod cydymffurfio â cheisiadau niferus am wybodaeth o dan y Ddeddf RhG oni bai bod cyfnod rhesymol o amser wedi mynd heibio rhwng cydymffurfio â'r cais blaenorol a'r amser y gwnaed y cais cyfredol. Wrth wneud penderfyniad ynghylch a ddylid categoreiddio cais am wybodaeth, fel cais niferus bydd y Cyngor yn ystyried:

- Yr amser sydd wedi mynd heibio ers y cais blaenorol;
- A yw'r cais yn union yr un peth neu'n sylweddol debyg i'r cais blaenorol;

- A oes unrhyw wybodaeth newydd a pherthnasol wedi codi ers y cais blaenorol.
- Ystyriwch bod 'cyfnod rhesymol o amser' yn 120 diwrnod gwaith.

Pan wrthodir cais oherwydd ei fod yn un niferus, bydd y Cyngor yn cyflwyno rhybudd ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod gwaith i'r cais. Bydd y Cyngor yn anfon llythyr safonol yn nodi bod y cais wedi'i wrthod ar y sail ei fod yn gais niferus. Bydd yr ymgeisydd yn derbyn gwybodaeth am Broses Adolygu Mewnol y Cyngor. Bydd manylion am yr hawl i apelio i'r Comisiynydd Gwybodaeth hefyd yn amgaaedig.

Lle bydd rhybudd wedi'i gyflwyno'n flaenorol i'r ymgeisydd bod y cais yn un niferus, ni fydd y Cyngor yn cyhoeddi rhybudd pellach.

Ceisiadau blinderus

Nid yw'r Cyngor yn gorfod cydymffurfio â cheisiadau blinderus o dan y Ddeddf RhG.

Bydd y Cyngor yn defnyddio'r term 'blinderus' yn deg ac yn gyson. Wrth benderfynu a ddylid gwrthod cais oherwydd ei fod yn flinderus, bydd y Cyngor yn ystyried holl amgylchiadau'r cais, gan gynnwys:

- Cyd-destun a hanes y ceisiadau a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd;
- Ceisiadau niferus a gyflwynir gan yr ymgeisydd (gweler, 'Ceisiadau Niferus');
- A yw'r cais yn debygol o beri trallod, aflonyddwch, neu lid heb ei gyfiawnhau.
- A ellid ystyried y cais yn un obsesiynol?
- A fydd cydymffurfio â'r cais yn peri baich sylweddol?
- A yw'r ymgeisydd yn cyflwyno ceisiadau yn gyson ac yn barhaus lle ymddengys nad oes unrhyw sail resymol dros wneud hynny
- A oes tebygolrwydd cryf bod ceisiadau o'r fath yn cael eu gwneud i beri aflonyddwch neu drallod i staff, dargyfeirio adnoddau, neu i amharu ar waith priodol y Cyngor.

Mae'r Cyngor yn ymwybodol y dylid defnyddio'r term 'blinderus' gyda gweithgareddau'r ymgeisydd ac nid gyda'u natur neu eu hymddygiad. Bydd y Cyngor yn asesu a yw'r cais yn flinderus o ganlyniad i'r fath o wybodaeth y gofynnir amdani, ac nid oherwydd pwy yw'r ymgeisydd.

Lle gwrthodir cais ar y sail ei fod yn rhy flinderus bydd rhybudd ysgrifenedig gan y Cyngor yn cael ei gyhoeddi o fewn 20 diwrnod gwaith o dderbyn y cais.

Bydd y Cyngor yn anfon llythyr safonol yn nodi bod y cais wedi'i wrthod ar y sail ei fod yn flinderus. Bydd yr ymgeisydd yn cael gwybod am y trefnau mewnol ar gyfer delio â chwyn. Bydd manylion am yr hawl i apelio i'r Comisiynydd Gwybodaeth hefyd yn amgaaedig.

Lle bydd rhybudd wedi'i gyflwyno yn flaenorol i roi gwybod i'r ymgeisydd bod y cais wedi ei ddsbarthu fel blinderus, ni fydd y Cyngor yn cydnabod neu yn ateb ceisiadau dilynol a wneir ar yr un pwnc neu bwnc tebyg.

Lle derbynnir cais a bod tebygolrwydd ei fod yn amwys yn hytrach na'n flinderus oherwydd diffyg gwybodaeth ar ran yr ymgeisydd, bydd y Cyngor yn rhoi eglurhad i'r ymgeisydd ynghylch beth y gofynnir amdano. Gellir gwneud hyn dros y ffôn, neu drwy ddarparu cais ysgrifenedig am eglurhad.

Pan dybir fod cais yn rhy flinderus, bydd y Panel Mynediad at Wybodaeth yn cwrdd i wneud penderfyniad ynghylch a yw'r terfyn ar gyfer yr eithriad hwn wedi'i ddiwallu cyn y cymerir unrhyw gamau pellach.

Cwynion

Mae gan y Cyngor Banel Mynediad at Wybodaeth mewnol ar gyfer delio â chwynion a wneir mewn perthynas â thrin ceisiadau am wybodaeth o dan y Ddeddf RhG gan gynnwys unrhyw adolygiad o'r penderfyniad cychwynnol i wrthod datgelu gwybodaeth. Gall unrhyw berson sy'n anhapus gyda'r ffordd y mae'r Cyngor wedi delio â'u cais am wybodaeth ddefnyddio'r dull hwn. Nid yw'r Comisiynydd Gwybodaeth yn debygol o ymchwilio i unrhyw gŵyn am y ffordd y mae'r Cyngor wedi delio â chais am wybodaeth, oni bai y bydd y dull cwynion wedi'i hysbyddu'n llwyr.

Gellir gwneud cwyn am fethiant y Cyngor i ryddhau gwybodaeth yn unol â'i gynllun cyhoeddi, ynglŷn â cheisiadau nad ydynt wedi'u trin yn gywir, neu lle bydd anfodlonrwydd gyda chanlyniad y cais. Os, yn dilyn cwyn, y gwneir penderfyniad i ryddhau gwybodaeth; bydd y wybodaeth ar gael ar y cyfle cynharaf yn dilyn hysbysiad o'r datgeliad bwriedig.

Cyllid cyfeirio cwynion am y ffordd yr ymdrinnir â cheisiadau gwybodaeth at yr Tîm Rheoli Gwybodaeth Corfforaethol ol yn:

Mynediad at Wybodaeth,
Tîm Rheoli Gwybodaeth Corfforaethol
Cyngor Sir Ddinbych
Blwch Post 62
Rhuthun
LL15 9AZ

E-bost: gwybodaeth@sirddinbych.gov.uk

Os caiff y penderfyniad i wrthod datgelu gwybodaeth ei gynnal, neu fod y drefn Adolygu Mewnol wedi'i hysbyddu, a bod yr ymgeisydd dal yn anfodlon, byddant yn cael gwybod am eu hawl i wneud cais am adolygiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth ar y cyfeiriad canlynol:

The Information Commissioner
Wycliffe House
Water Lane
Version 3 April 2013

Wilmslow ,
Cheshire

SK9 5AF
Tel No: 01625 545700



Monitro ac Adolygu

Bydd cydymffuriad â'r polisi hwn a threfnau perthnasol yn cael eu monitro gan y Tîm RhG, gan weithio gyda'r Swyddogion Rheoli Gwybodaeth o bob gwasanaeth a gan y Panel Mynediad at Wybodaeth. Adroddir am adroddiadau'r Panel a gweithgareddau'r Cyngor o dan DRhG yn flynyddol i Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor.

Bydd unrhyw doriad bwriadol o'r Ddeddf RhG yn cael ei ystyried fel camweinyddu a gall arwain at gamau disgyblu.

Adolygir y polisi hwn dim hwyrach na Thachwedd 2015.

Atodiad A

PANEL MYNEDIAD AT WYBODAETH

Cylch gorchwyl

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ymroddedig i gydymffurfio â holl ddeddfwriaeth gwybodaeth, Deddf Hawliau Dynol a dyletswydd gyfreithiol gyffredin o gyfrinachedd. Cymeradwyodd y Cyngor ffurfio Panel Mynediad at Wybodaeth corfforaethol yn Ebrill 2012 ac mae rhwymedigaethau a phwerau aelodau'r panel wedi'u nodi yng Nghynllun Dirprwyo'r swyddog a gynhwysir yng Nghyfansoddiad y Cyngor a fabwysiedir gan y Cyngor llawn.

Aelodau Panel :

Aelodau Llawn:

- Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (Cadeirydd)
- Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol a Democraidaidd a Swyddog Monitro (Is-Gadeirydd)
- 2 Bennaeth Gwasanaeth

Aelodau Ymgynghorol :

- Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad / Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth.
- Rheolwr Gwybodaeth Corfforaethol
- Dirprwy Swyddog Monitro / Swyddog Diogelu Data

Mae'r panel yn gwneud cworwm pan fydd o leiaf un aelod llawn ac un aelod â chymhwyster cyfreithiol (a all fod yn aelod ymgynghorol) yn bresennol.

Gall yr Archifydd/Rheolwr Cofnodion ddirprwyo ar gyfer y Rheolwr Gwybodaeth Corfforaethol.

Swyddogaeth a phwrpas

Pwrpas y Panel Mynediad at Wybodaeth yw gwneud penderfyniadau ar ddatgelu neu atal gwybodaeth yn dilyn derbyn cais am wybodaeth o dan y Ddeddfwriaeth gwybodaeth, gan gynnwys datgeliadau o dan y Ddeddf Diogelu Data. Nid pwrpas y Panel yw darparu haen ychwanegol o fiwrocratiaeth, ond i sicrhau dull cyson ym mhob maes o ddatgelu gwybodaeth ar draws y Cyngor, gyda'r pwyslais ar lywodraeth agored ac eglur, er mwyn cynyddu hyder y cyhoedd yn null y Cyngor o wneud penderfyniadau, ond hefyd ei rwymedigaethau i ddiogelu gwybodaeth bersonol. Bydd hefyd yn darparu opsiwn i'r gwasanaethau o atgyfeirio at y

Panel, lle byddant yn ystyried bod eithriad yn gymwys, yn erbyn safbwyntiau'r Tîm Gwybodaeth Corfforaethol.

Bydd y Panel yn gwneud penderfyniadau ar y canlynol:

- Penderfyniadau eithrio dadleuol, eithriadol o sensitif, neu â phroffil uchel iawn.
- Ceisiadau am adolygiad o benderfyniad cychwynnol gan yr un sy'n gwneud y cais.
- Cyfeiriadau gan Wasanaeth sy'n dymuno i'r Panel yn benodol wneud y penderfyniad ar y mater.

Ni fydd y Panel yn gwneud penderfyniadau ar y canlynol:

- Golygiadau trydydd parti syml ynghylch gwybodaeth bersonol.
- Eithriadau, sydd ym marn Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, neu ei ddirprwy, a'r Tîm Gwybodaeth Corfforaethol, yn amlwg yn gymwys i'r cais ac ni fydd angen ymrwymiad na phresenoldeb y panel.

Telerau'r aelodaeth

Mae'n amod o aelodaeth y panel bod pob aelod o'r panel yn mynd i hyfforddiant ar Ddeddfwriaeth gwybodaeth, er mwyn deall a chymhwyso'r eithriadau yn gywir.

Ni all aelod panel llawn ddirprwyo ei gyfrifoldeb i Swyddog arall nad ydyw'n aelod o'r panel.

Lle bydd gwrthdaro buddiannau yn effeithio ar ddull aelod o'r panel i wneud penderfyniad, mae'n rhaid iddynt roi gwybod i'r panel am y buddiant hwn, ac i beidio â chymryd rhan yn y penderfyniad. Gallant dynnu eu 'het' i ffwrdd fel aelod y panel a gwneud sylwadau ar ran eu Gwasanaeth, ond ni allant bleidleisio dros y mater.

Bydd aelodau o'r Panel yn cadw manylion personol y ceisydd yn gyfrinachol ac unrhyw wybodaeth gyfrinachol y dônt ar ei thraws yn eu gallu fel aelodau panel.

Cworwm

Bydd y Panel yn gwneud cworwm pan fydd o leiaf un swyddog â chymhwyster cyfreithiol yn bresennol ac o leiaf un aelod panel llawn arall.

Lle bynnag y bo'n bosibl, bydd y Panel yn ceisio cyrraedd penderfyniad unfryd. Lle na chyflawnir hyn, bydd pob aelod yn cael un bleidlais. Bydd unrhyw fater yn cael ei benderfynu gydag uchafswm syml o'r aelodau sy'n pleidleisio ac yn bresennol. Pan fydd yn gyfartal, bydd y Cadeirydd yn cael y bleidlais fwrw.

Proses a Threfnau

Gwneir atgyfeiriad at y Panel Mynediad at Wybodaeth drwy'r Tîm Gwybodaeth Corfforaethol, a fydd yna'n gwneud trefniadau i'r Panel gyfarfod,

gan ystyried y terfynau amser statudol y mae'r Gwasanaeth angen delio â'r cais.

Bydd y Gwasanaethau Cyfreithiol yn paratoi adroddiad i'r Panel, yn amlinellu'r materion, ond bydd gan y Panel yr hawl i ofyn cwestiynau ac ystyried ffactorau y tu allan i'r adroddiad os ydynt yn ystyried hyn yn berthnasol. Lle argymhellir, bydd Gwasanaethau Cyfreithiol yn drafftio'r ymateb i'rymgeisydd. Os nad oes modd gwneud adroddiad ysgrifenedig oherwydd prinder amser, gellir rhoi cyngor cyfreithiol ar lafar yn y Panel, a'u cofnodi.

Mae'r adran sy'n dymuno dibynnu ar yr eithriad yn gorfod cael gwahoddiad i ddod i'r Panel, ond nid yw eu presenoldeb yn orfodol.

Bydd Aelodau'r Panel Mynediad at Wybodaeth yn ceisio eu gorau i fynd i unrhyw gyfarfodydd brys lle bydd hyn yn hanfodol a phan nad oes modd osgoi hyn; fodd bynnag, rhaid rhoi rhybudd rhesymol i aelodau o'r Panel. Os ydyw'n briodol, gellir gwneud penderfyniadau brys yn electronig, ar yr amod nad ydyw'r cais yn un cymhleth neu nid oes angen presenoldeb yr adran sy'n dymuno dibynnu ar yr eithriad.

Penderfyniadau a.36

Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yw'r unig aelod panel ar gyfer penderfyniadau a.36, a fydd yn gwneud ymgynghoriad ac yn rhoi'r mater mewn rhaglen gerbron y Panel, ac yn cymryd safbwyntiau'r panel i ystyriaeth, cyn gwneud y penderfyniad terfynol o dan yr adran hon.

Fersiwn 3 Ebrill 2013

Atodiad B Eithriadau rhag Datgelu

Eithriadau lle bydd prawf lles y cyhoedd yn berthnasol (Eithriadau Cymwys)

- Gwybodaeth a fwriedir ar gyfer ei chyhoeddi yn y dyfodol
- Diogelwch Cenedlaethol
- Amddiffyniad
- Perthnasau rhyngwladol
- Perthnasau o fewn y Deyrnas Unedig
- Yr Economi
- Ymchwiliadau a gweithgareddau a gynhelir gan yr awdurdod cyhoeddus
- Gorfodi'r Gyfraith
- Swyddogaethau archwilio
- Ffurio polisi llywodraeth
- Rhagfarnu ar ymddygiad effeithiol materion cyhoeddus
- Cyfathrebu gydag Ei Mawrhydi
- Iechyd a Diogelwch
- Gwybodaeth Amgylcheddol (y ceir mynediad ati drwy'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol)
- Braint Proffesiynol Cyfreithiol
- Diddordebau Masnachol.

Eithriadau lle nad ydyw'r prawf lles y cyhoedd yn gymwys (Eithriadau Absoliwt)

- Gwybodaeth sy'n hygyrch i'r ymgeisydd drwy ddulliau eraill
- Cofnodion llys
- Braint Seneddol
- Rhagfarnu ar ymddygiad effeithiol materion cyhoeddus
- Gwybodaeth Bersonol
- Gwybodaeth a roddir yn gyfrinachol
- Gwaharddiadau ar ddatgelu gwybodaeth lle gwaherddir ar ddatgelu gan ddeddfiad neu a fyddai'n ddirmyg llys.
- Gwybodaeth a roddir gan neu sy'n berthnasol i gyrff yn delio â materion diogelwch.